# Hunanasesiad o Berfformiad 2024/25 – Trosolwg Corfforaethol

## Ein Dull Ni o Weithredu

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ddyletswydd arnom i barhau i adolygu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r 'gofynion perfformiad' isod:

- Y graddau yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
- Y graddau yr ydym yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; a
- Gwneud yn siŵr bod ein trefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Yn seiliedig ar y gofynion hyn, mae ein hunanasesiad mewn tair rhan, pob un yn cynnwys cymysgedd o elfennau meintiol ac ansoddol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth rifiadol debyg trwy'r elfennau a sgoriwyd, a gydbwysir wedyn trwy'r dystiolaeth fanylach a gesglir trwy'r elfennau ansoddol.

Mae amcanion llesiant y Cyngor a'r dyletswyddau a osodir arnom drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sail i bopeth a wnawn fel sefydliad.

Felly, mae **Rhan 1** o'n hunanasesiad yn canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a ddangosir trwy'r pum ffordd o weithio. Mae'n rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gofynnwyd i is-adrannau asesu pa mor dda roeddent yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar sail sgôr o 1-5. 1 - dim o gwbl, 5 - yn dda iawn.

Mae **Rhan 2** yn canolbwyntio ar y graddau yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol sydd wedi'i osod yng nghyd-destun y saith maes corfforaethol nodedig a nodwyd yn y Deddfau.

Mae matricsau sgorio manwl hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer cynllunio'r gweithlu ac aeddfedrwydd digidol. Nid yw'n ofyniad uniongyrchol ein bod yn canolbwyntio ar yr elfennau hyn, ond mae'r broses hunanasesu yn amser cyfaddas i gasglu'r wybodaeth hon ar lefel fanwl ar gyfer y sefydliad cyfan.

**Mae Rhan 3** yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu a'r graddau y mae'r trefniadau hyn yn effeithiol i sicrhau'r ddau ofyniad a gaiff eu cwmpasu yn rhannau 1 a 2. Mae'r egwyddorion y sgoriwyd yn eu herbyn yn gyson â'r rheiny a nodwyd yng nghanllaw llywodraethu da mewn Awdurdod Lleol y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Mae pob un o is-adrannau gwasanaeth y Cyngor wedi cynnal eu hunanasesiad eu hunain ac mae'r rhain wedi'u trefnu yn ôl adran i baratoi trosolygon adrannol, sydd yn eu tro wedi cael eu defnyddio i baratoi'r trosolwg corfforaethol hwn.

Gwneir dyfarniad cyffredinol ar y tri gofyniad perfformiad. Mae'r tabl isod yn dangos y matrics a ddatblygwyd i fesur ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd.

| Disgrifydd | Sgôr |
|---|---|
| **Da iawn/Effeithiol iawn** – Rydym yn bodloni'r gofynion yn llawn ac yn rhagori ar y gofynion mewn rhai agweddau neu bob agwedd | 5 |
| **Da/Effeithiol** – Rydym yn bodloni ein gofynion ond ceir cyfleoedd am welliant pellach | 4 |
| **Cymedrol dda/cymedrol effeithiol** – Rydym yn bodloni ein gofynion ond mae yna fân wendidau sydd angen eu gwella. | 3 |
| **Ddim yn dda iawn/Ddim yn effeithiol iawn** – Rydym yn bodloni'r gofynion i raddau cyfyngedig yn unig gan fod yna wendidau sylweddol. | 2 |
| **Ddim o gwbl/Ddim yn effeithiol o gwbl** – Nid ydym yn bodloni'r gofynion ac mae yna wendidau sylweddol iawn, mae angen ymyrraeth sylweddol er mwyn gwella. | 1 |

## Trosolwg Corfforaethol

Mae meysydd gwasanaeth y Cyngor yn cydweithio ac yn integreiddio i gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol, ac rydym yn monitro'r camau gweithredu a'r mesurau a osodwyd. Gallwn fonitro cynnydd ar y camau a'r mesurau hyn fesul Portffolio Cabinet, Pwyllgor Craffu, Datganiad Gweledigaeth y Cabinet, Amcan Llesiant a fesul Adran a Gwasanaeth. Cyflawnwyd **81%** o'n camau gweithredu a'n targedau am y flwyddyn. Esboniwyd unrhyw feysydd oedd oddi ar y targed a chamau unioni.

| Adran | Swyddogaeth | Ar y Targed | |
|---|---|---|---|
| | | Camau Gweithredu a Mesurau | % |
| **Prif Weithredwr** | Rheoli Pobl<br>Y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil<br>Marchnata a'r Cyfryngau | **84** | **84%** |
| **Addysg a Phlant** | Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Effeithiolrwydd Ysgolion ac Ymgysylltu â Disgyblion<br>Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant | **44** | **80%** |
| **Cymunedau** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>Gwasanaethau Integredig<br>Tai<br>Gwasanaethau Hamdden<br>Comisiynu<br>Eiddo | **51** | **82%** |
| **Lle, Seilwaith, a Datblygu Economaidd** | Seilwaith Amgylcheddol<br>Lle a Chynaliadwyedd<br>Datblygu Economaidd ac Eiddo | **87** | **77%** |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol<br>Gwasanaethau Ariannol<br>Prosiectau Cyfalaf sy'n Gysylltiedig ag Iechyd | **33** | **89%** |

Perfformiad cyffredinol ar gyflawni'r camau a'r mesurau sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol:

| 2024/25 | Ar y Targed | Ddim ar y Targed |
|---|---|---|
| **Nifer y camau gweithredu a'r targedau a bennir** | **299** | **68** |
| **%** | **81%** | **19%** |

## Themâu a Chanfyddiadau Cyffredinol

Yn seiliedig ar y wybodaeth is-adrannol unigol a throsolygon adrannol, nodwyd y themâu a'r canfyddiadau cyffredinol canlynol.

Sgôr gyffredinol y Cyngor yn seiliedig ar sgoriau adrannau o ran eu gallu i weithredu – **4.0**.

## Casgliad

| Gofyniad y Ddeddf | Sgôr | Casgliad |
|---|---|---|
| Y graddau yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol | **4.0** | **Da** – Rydym yn bodloni ein gofynion ond ceir cyfleoedd am welliant pellach. |
| Y graddau yr ydym yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol | **3.8** | **Cymedrol dda/da** – Rydym yn bodloni ein gofynion ond mae yna fân wendidau sydd angen eu gwella. |
| Y graddau y mae ein trefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod. | **4.0** | **Effeithiol/Da – Rydym yn bodloni ein gofynion ond ceir cyfleoedd am welliant pellach.** |

# Rhan Un
# Cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
# Y Pum Ffordd o Weithio

| Pum Ffordd o Weithio | CEX | COM | CS | ECF | PI | 24/25 Sgôr | 23/24 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Integreiddio | 4.3 | 4.3 | 4.3 | 4.0 | 4.0 | **4.2** | 4.0 |
| Ffocws Hirdymor | 3.3 | 4.3 | 4.2 | 4.3 | 4.0 | **4.1** | 4.0 |
| Cynnwys | 4.0 | 3.7 | 4.3 | 3.3 | 4.0 | **3.8** | 3.9 |
| Cydweithio | 4.7 | 4.3 | 4.7 | 4.0 | 4.0 | **4.3** | 4.3 |
| Atal | 4.0 | 4 | 3.9 | 4.0 | 3.8 | **3.9** | 3.9 |
| **Cyfanswm** | **4.1** | **4.1** | **4.3** | **3.9** | **4.0** | **4.1** | **-** |

| Integreiddio: 4.2 |
|---|
| Mae'r strategaethau yn parhau i gyd-fynd yn agos â'r amcanion corfforaethol a'r blaenoriaethau strategol. Mae'r ymrwymiad i weithio ar y cyd a mabwysiadu arferion arloesol yn amlwg drwy holl is-adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae angen rhagor o ddatblygu i gryfhau'r gwaith o integreiddio â phartneriaid ymhellach er mwyn ystyried nodau llesiant ac amcanion sefydliadau eraill. Mae yna integreiddio mewnol da, ond mae angen atgyfnerthu hyn ymhellach ar gyfer heriau sylweddol ar draws y boblogaeth gyfan a dyrannu adnoddau'n effeithiol. |

| Ffocws Hirdymor: 4.1 |
|---|
| Mae llawer o is-adrannau yn gweithredu cynlluniau strategol sy'n gyson â'r tymor canolig gan gyd-fynd yn glir â'r Strategaeth Gorfforaethol. Mae defnydd effeithiol o ddata i lywio penderfyniadau a chydweithrediadau ag amrywiol randdeiliaid yn cyflawni datblygu cynaliadwy, er bod yna gyfleoedd i gryfhau hyn ymhellach. Mae data yn llywio'r gwaith o fonitro perfformiad, ond mae mwy o gwmpas i ddefnyddio data tueddiadau'r dyfodol a sganio'r gorwel ar gyfer gwell cynllunio. Bydd hyn yn caniatáu gwell cyfleoedd i ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer y sefydliad a'i adrannau. |

| **Cynnwys: 3.8** |
| --- |
| Mae'r sefydliad yn ymgynghori'n rheolaidd â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth, ond yn bennaf yn ôl yr angen. Fodd bynnag, ceir ymrwymiad i gynnwys rhanddeiliaid ar draws pob adran. Ceir cyfleoedd i gefnogi deialog barhaus a gwella'r defnydd corfforaethol o safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth er mwyn monitro perfformiad. Yn ogystal, byddai modd cyfathrebu'n well yr effaith o gynnwys preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau, er bod hyn wedi gwella. |

| **Cydweithio: 4.3** |
| --- |
| Yn parhau i fod yn dda ar draws y sefydliad. Mae ymdrechion i feithrin partneriaethau cryf, yn fewnol ac yn allanol, yn amlwg yn y canlyniadau cadarnhaol a'r gwelliannau mewn darparu gwasanaethau, ond mae lle i nodi ymhellach sut y gall partneriaid gefnogi ein hamcanion llesiant ni a sut y gallwn gefnogi eu hamcanion llesiant hwy. |

| **Atal: 3.9** |
| --- |
| Gwnaed peth cynnydd o ran ymgorffori atal ar draws gwasanaethau, sy'n gysylltiedig â thueddiadau hirdymor, ac a gynhwysir yn y Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r ymrwymiad i ystyried mesurau rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar yn amlwg ar draws adrannau, ond mae lle i wella wrth integreiddio'r strategaethau hyn yn fwy cydlynol a systematig i wella'r gefnogaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ataliol. Fodd bynnag, bu llwyddiant wrth ddatblygu'r Strategaeth Atal. |

| **Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol** |
| --- |
| • Parhau i gryfhau'r modd y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys trwy wella'r dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan ddefnyddio'r tudalennau gwe cynhwysfawr ar ymgynghori i annog cyfranogiad gweithredol.<br>• Gwella ymdrechion ar y cyd â phartneriaid mewnol ac allanol i ddarparu gwasanaethau integredig, megis manteisio ar y cyfle i ailsefydlu perthnasoedd gwaith ag undebau llafur trwy bartneriaeth gymdeithasol newydd.<br>• Archwilio gweithgareddau ataliol ymhellach a'u gweithredu i ategu egwyddorion datblygu cynaliadwy.<br>• Gwella'r defnydd o ddata ymhellach i lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau.<br>• Gwella arferion cyfranogi a gwneud y defnydd mwyaf o wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Cryfhau ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol trwy ymgorffori uchelgeisiau Sero Net a gwytnwch hinsawdd ym mhob agwedd ar gynllunio strategol a darparu gwasanaethau. |

## Rhan Dau
## A yw'r Sefydliad yn defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon, ac effeithiol?

| Meysydd Corfforaethol | CEX | COM | CS | ECF | PI | 24/25 Sgôr | 23/24 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio Corfforaethol | 4.3 | 3.9 | 4.0 | 3.6 | 4.2 | **4.0** | 4.0 |
| Cynllunio Ariannol | 4.2 | 3.6 | 4.0 | 3.7 | 3.9 | **3.8** | 4.0 |
| Caffael | 4.3 | 3.6 | 4.1 | 4.0 | 4.0 | **3.9** | 3.9 |
| Rheoli Asedau | 2.8 | 3.5 | 4.0 | 3.4 | 4.1 | **3.6** | 4.0 |
| Rheoli Risg | 3.6 | 3.5 | 4.1 | 3.4 | 3.6 | **3.6** | 4.3 |
| Rheoli Perfformiad | 4.3 | 3.8 | 4.2 | 4.1 | 4.7 | **4.2** | 4.2 |
| **Cyfanswm** | **3.9** | **3.6** | **4.1** | **3.7** | **4.0** | **3.8** | |

| Meysydd | Sgôr | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| **Cynllunio Corfforaethol** | **4.0** | Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn integreiddio'r pum ffordd o weithio yn effeithiol ac yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag, ceir cyfleoedd i archwilio sut y gall y broses cynllunio busnes gyd-fynd yn well â'r broses o osod cyllideb i ganiatáu mwy o gydweithio. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i integreiddio'r canlyniadau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni a chanfyddiadau'r ymgynghoriad i brosesau cynllunio busnes, ond mae mwy y gellir ei wneud yn y maes hwn i sicrhau gwir integreiddio. Byddai integreiddio blaenoriaethau corfforaethol ymhellach, megis y Strategaeth Gorfforaethol a Datganiad Gweledigaeth y Cabinet, yn caniatáu adroddiadau cynnydd mwy effeithlon. |
| **Cynllunio Ariannol** | **3.8** | Ceir ymrwymiad i gyflawni gwerth am arian a rheoli arian yn ddoeth. Caiff y gyllideb ei chynllunio mewn modd trylwyr a haenog, gydag ymdrechion da i gyd-fynd â nodau hirdymor, integreiddio cynlluniau ariannol â strategaeth gorfforaethol, a mesurau rhagweithiol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd. Serch hynny, gallwn barhau i wella'r modd y caiff adrannau eu cynnwys wrth osod a monitro cyllidebau a chyd-fynd ymhellach â'r broses cynllunio busnes (fel y nodwyd uchod). Mae'r sefyllfa ariannol heriol yn cyfyngu ar ddewisiadau ariannol ataliol, ond caiff eu pwysigrwydd ei gydnabod. |
| **Caffael** | **3.9** | Mae'r ffocws ar berthnasoedd hirdymor, cydymffurfiaeth, a chynaliadwyedd yn amlwg ar draws adrannau. Fodd bynnag, mae'r meysydd i'w datblygu yn cynnwys gwella tryloywder trwy fframweithiau canolog, gwella cyfraddau ymateb gan gontractwyr, a mynd i'r afael â materion capasiti ar gyfer diwydrwydd dyladwy a rheoli contractau. Yn gyffredinol, mae'r arferion caffael yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor, gyda phwyslais parhaus ar wella a chyd-fynd â deddfwriaeth, megis y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. |
| **Rheoli Asedau** | **3.6** | Mae sawl is-adran yn dangos arferion rhagorol, ond ceir meysydd lle mae strategaethau cynllunio a rheoli adnoddau manwl yn brin. Mae'r arferion yn ategu egwyddorion datblygu cynaliadwy a budd i'r gymuned, ond mae angen dull mwy cyson i fynd i'r afael â bylchau. |
| **Rheoli Risg** | **3.6** | Mae'r cofrestrau risg a'r cynlluniau parhad busnes at ei gilydd yn gyfredol ac yn integreiddio â'n strategaethau. Fodd bynnag, gellid cyflawni gwelliant pellach trwy ffurfioli ac adolygu rhai cynlluniau parhad a sicrhau bod risgiau adrannol ac is-adrannol yn cael eu cofnodi a'u monitro'n gyson drwy'r gofrestr risg. Cydnabyddir bod yna gyfleoedd pellach i gysoni cynlluniau rheoli risg a pharhad busnes â'r broses cynllunio busnes flynyddol. |

| Meysydd | Sgôr | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| **Rheoli Perfformiad** | 4.2 | Er bod y dull cyffredinol yn gadarn, gallwn barhau i wella trwy fireinio'r broses hunanasesu ymhellach i sicrhau ei bod yn ymarfer ystyrlon i bawb sy'n cymryd rhan. Dylai prosesau rheoli perfformiad adrannol gyd-fynd â'r dulliau corfforaethol er cysondeb ac i roi mwy o sicrwydd bod gwybodaeth a data perthnasol yn cael eu hystyried ar lefel gorfforaethol. |

**Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol**

- Ystyried heriau ariannol trwy gyllidebu rhagweithiol ac archwilio modelau amgen o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cyd-fynd yn agosach â chynlluniau busnes er budd cynaliadwyedd yn y tymor canolig a'r hirdymor.
- Defnyddio data ymhellach ar gyfer cynllunio strategol a gwneud penderfyniadau gan sicrhau bod trefniadau adrannol yn cyd-fynd yn llawn â dulliau corfforaethol.
- Archwilio cyfleoedd i gysoni'r gwaith o reoli risg a chynlluniau parhad busnes â'r broses cynllunio busnes flynyddol.
- Bydd cysoni'r holl flaenoriaethau corfforaethol ymhellach fel y nodwyd trwy'r Strategaeth Gorfforaethol a Datganiad Gweledigaeth y Cabinet yn gwella'r broses adrodd ac felly'r ystyriaeth a roddir i bopeth yn y rownd.
- Sicrhau stiwardiaeth gadarn ar asedau trwy ddull cyson, ar draws y sefydliad cyfan o reoli asedau sy'n ategu gwerth a gwytnwch hirdymor.
- Hyrwyddo tryloywder ac effeithlonrwydd mewn caffael trwy gryfhau trefniadau llywodraethu, gwella gwelededd, a meithrin y gallu i reoli contractau'n effeithiol.

## Cynllunio’r Gweithlu

| Elfen | CEX | COM | CS | ECF | PI | 24/25 Sgôr | 23/24 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pum Ffordd o Weithio | 3.3 | 2.7 | 3.0 | 4.0 | 3.8 | **3.3** | - |
| Cysoni Sgiliau | 3.3 | 2.7 | 4.3 | 4.0 | 4.0 | **3.3** | - |
| Cynllunio’r Gweithlu | 3.0 | 2.5 | 2.7 | 3.3 | 3.5 | **3.0** | 3.2 |
| Data | 3.0 | 3.5 | 3.3 | 3.3 | 3.5 | **3.0** | 3.2 |
| Galw | 3.7 | 3.0 | 3.0 | 3.7 | 3.5 | **3.7** | 3.2 |
| Cyflenwad | 3.0 | 3.0 | 3.0 | 3.0 | 3.5 | **3.0** | 3.0 |
| Dadansoddi Bylchau | 3.0 | 2.8 | 2.0 | 3.7 | 4.0 | **3.0** | 3.2 |
| Cynlluniau Gweithredu | 4.0 | 2.8 | 3.3 | 3.3 | 3.4 | **4.0** | 3.0 |
| Llywodraethu | 3.7 | 2.8 | 3.3 | 3.7 | 3.5 | **3.7** | 3.2 |
| **Cyfanswm** | **3.3** | **2.8** | **3.1** | **3.6** | **3.6** | **3.2** | 3.1 |

| Elfen | Lefel | Sgôr |
|---|---|---|
| **Pum Ffordd o Weithio** | Amh. | **3.3** |
| **Cysoni Sgiliau** | Amh. | **3.3** |
| **Elfennau allweddol o Gynllunio Gweithlu** | Cael modelau/cynlluniau gweithlu ar gyfer rhai gwasanaethau o fewn is-adran. | **3.0** |
| **Data** | Un ffynhonnell ddata ar gyfer data gweithlu o fewn yr is-adran. Safoni rolau a'r siartiau sefydliadol sydd ar gael. | **3.0** |
| **Galw** | Model untro o alw am fenter, gwasanaeth neu adran sengl. | **3.7** |
| **Cyflenwad** | Casglu newidynnau sylfaenol y gweithlu mewnol. Amcanestyniadau byrdymor (blynyddol). Tueddiadau cyffredinol y llafur sydd ar gael a chostau wedi'u holrhain. | **3.0** |
| **Dadansoddi Bylchau** | Dadansoddiad o ddiffyg / gwarged a ysgogir gan ddigwyddiadau. Rhagfynegi'r angen am sgiliau allweddol. Rhywfaint o ddadansoddi trosiant. | **3.0** |

| Elfen | Lefel | Sgôr |
|---|---|---|
| **Cynlluniau Gweithredu** | Datblygu strategaeth gweithlu/busnes integredig is-adrannol. Ymagwedd ar lefel gwasanaeth tuag at newidiadau i'r gweithlu. | **4.0** |
| **Llywodraethu** | Arweinwyr gwasanaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth â chyfrifoldebau WFP. | **3.7** |
| | **Sgôr** | **3.2** |

| Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol |
|---|
| • Parhau i ddatblygu modelau gweithlu cynhwysfawr a chynlluniau olyniaeth i fodloni gofynion y dyfodol, adolygu proffiliau swyddi a strwythurau gwasanaeth hefyd i nodi dulliau cyflenwi busnes amgen a chynaliadwyedd ariannol.<br>• Parhau i adeiladu capasiti a gweithlu'r dyfodol trwy brentisiaethau a chymwysterau. |

## Aeddfedrwydd Digidol

| Elfen | CEX | COM | CS | ECF | PI | 24/25 Sgôr | 23/24 Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid a Newid | 3.7 | 3.3 | 3.7 | 3.3 | 3.8 | **3.5** | 3.2 |
| Arweinyddiaeth | 3.7 | 4.2 | 3.0 | 3.7 | 3.8 | **3.7** | 3.4 |
| Profiad y Cwsmer a Darparu Gwasanaethau | 4.0 | 3.3 | 3.7 | 3.7 | 3.4 | **3.6** | 3.4 |
| Gweithio'n ddi-bapur | 4.3 | 3.7 | 4.0 | 3.3 | 4.0 | **3.8** | 3.6 |
| Caledwedd a Dyfeisiau | 4.0 | 4.2 | 4.3 | 3.3 | 4.0 | **3.4** | 3.8 |
| Meddalwedd a Chymwysiadau | 3.7 | 3.2 | 3.7 | 2.7 | 4.0 | **3.4** | 3.0 |
| Cynnwys a Gwybodaeth | 4.0 | 3.8 | 4.0 | 3.0 | 4.0 | **3.8** | 3.6 |
| Cyfathrebu a Chydweithio | 4.3 | 3.7 | 3.7 | 3.3 | 3.8 | **3.7** | 3.8 |
| Rheoli a Diogelwch | 4.7 | 3.7 | 4.0 | 3.7 | 4.5 | **4.1** | 3.8 |
| **Cyfanswm** | **4.0** | **3.7** | **3.8** | **3.3** | **3.9** | **3.7** | **3.5** |

| Elfen | Lefel | Sgôr |
|---|---|---|
| **Trawsnewid a Newid Digidol (capasiti)**<br>Pa mor barod a galluog ydych chi'n teimlo yw eich gwasanaeth i ymateb i dueddiadau a heriau digidol sy'n dod i'r amlwg, ac i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio trwy dechnoleg. | Ystwythder cymedrol, gydag ymdrechion i addasu i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ond lle i wella mewn ymateboldeb. | **3.5** |
| **Arweinyddiaeth Ddigidol**<br>Pa mor hyderus a galluog ydych chi'n teimlo yw eich tîm/timau arweinwyr wrth ddarparu arweinyddiaeth ddigidol, pan fo angen, h.y. wrth ddylunio gwasanaethau, gweithredu newid ac ati. | Mae gan y tîm arweinwyr rywfaint o ddealltwriaeth a gallu sylfaenol mewn arweinyddiaeth ddigidol, ond mae bylchau yn eu gwybodaeth a'r modd y maent yn gweithredu. | **3.7** |
| **Profiad y Cwsmer a Darparu Gwasanaethau**<br>Pa mor effeithiol mae eich gwasanaeth yn defnyddio sianeli digidol ar-lein i wella profiad y cwsmer a darparu gwasanaethau trafodion ar-lein o'r dechrau i'r diwedd? | Darparu gwasanaethau digidol sylfaenol, rhywfaint o le i wella. | **3.6** |
| **Gweithio'n ddi-bapur**<br>I ba raddau rydych chi'n teimlo bod eich gwasanaethau wedi trawsnewid i fod yn ddi-bapur, lle bo hynny'n rhesymol. | Rydym wedi gwneud camau cymedrol wrth ddigideiddio ein prosesau, gyda gostyngiad sylweddol yn y defnydd o bapur, ond mae lle i wella o hyd | **3.8** |
| **Caledwedd a Dyfeisiau** | Cymedrol - mae'r cyfarpar yn diwallu'r anghenion sylfaenol ond mae rhai o'r | **3.4** |

| Elfen | Lefel | Sgôr |
|---|---|---|
| Pa mor ddigonol ydych chi'n teimlo yw'r caledwedd a'r dyfeisiau angenrheidiol sydd gan eich gwasanaeth i gyflawni'n effeithiol? (gliniaduron, cyfrifiaduron, llechi, ffonau clyfar ac ati) | offer hanfodol ar gyfer y perfformiad gorau posibl yn eisiau. | |
| **Meddalwedd a Rhaglenni** Pa mor effeithiol ydych chi'n defnyddio offer a chymwysiadau digidol i symleiddio llifoedd gwaith a gwella effeithlonrwydd? | Defnydd cymedrol o offer a chymwysiadau digidol, gan arwain at beth symleiddio llifoedd gwaith a gwelliant cymedrol mewn effeithlonrwydd. | **3.4** |
| **Gwybodaeth a Chynnwys Digidol** Pa mor drefnus a hygyrch yw'r wybodaeth a'r cynnwys digidol o fewn eich gwasanaeth? (SharePoint, storio ffeiliau ac ati). | Gwybodaeth a chynnwys digidol wedi'u trefnu'n gymedrol, yn hygyrch gyda pheth ymdrech. | **3.8** |
| **Cyfathrebu a Chydweithio Digidol** Pa mor effeithiol mae eich gwasanaeth yn defnyddio platfformau digidol ar gyfer cyfathrebu a chydweithio? | Defnydd digonol gyda lle i wella. | **3.7** |
| **Rheoli Data a Diogelwch** Pa mor effeithiol y caiff data sensitif ei reoli a'i ddiogelu o fewn eich gwasanaeth a pha mor alluog ydych chi'n teimlo i gyflawni hyn? (arferion ac ymddygiad da o ran y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a seiberddiogelwch) | Caiff data sensitif ei reoli a'i ddiogelu'n dda, gan gadw'n dynn at y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ac arferion seiberddiogelwch. Ceir lefel uchel o alluogrwydd a hyder mewn cynnal y safonau hyn yn effeithiol. | **4.1** |
| | **Sgôr** | **3.7** |

| Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol |
|---|
| • Parhau i ddatblygu Strategaeth AI a Data bwrpasol, yn ogystal ag archwilio gwelliannau pellach mewn mentrau trawsnewid digidol.<br>• Hyrwyddo arferion trawsnewid digidol trwy integreiddio systemau a data i ddarparu gwasanaethau di-dor a'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus.<br>• Datblygu ymagwedd unedig tuag at gael dealltwriaeth o gwsmeriaid, gan sicrhau bod adborth ac ymgysylltu yn llunio'r gwaith o ddylunio a gwella gwasanaethau.<br>• Ehangu ein gallu i ymgysylltu'n ddigidol trwy ddefnydd diogel a chyfrifol o blatfformau ar-lein i gryfhau'r cyfathrebu â phreswylwyr a rhanddeiliaid. |

## Rhan Tri
## A yw'r Trefniadau Llywodraethu yn effeithiol?

| Yr Egwyddor | CEX | COM | CS | ECF | PI | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Uniondeb a Gwerthoedd | 5.0 | 4.2 | 4.7 | 4.3 | 4.5 | **4.5** |
| Bod yn agored ac Ymgysylltu | 4.7 | 3.2 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | **3.8** |
| Gwneud Gwahaniaeth | 3.3 | 3.3 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | **3.7** |
| Sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn y mae'n fwriad gennym ei wneud | 4.0 | 3.8 | 4.3 | 4.0 | 4.3 | **4.1** |
| Gwerthfawrogi ein pobl; ymgysylltu, arwain a chefnogi | 4.3 | 3.7 | 3.7 | 4.0 | 4.3 | **3.9** |
| Rheoli risgiau, perfformiad a chyllid | 4.7 | 3.5 | 4.7 | 4.0 | 4.3 | **4.1** |
| Tryloywder ac atebolrwydd da | 4.7 | 3.5 | 4.3 | 4.0 | 4.5 | **4.1** |
| **Cyfanswm** | **4.4** | **3.6** | **4.2** | **4.0** | **4.3** | **4.0** |

| Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol |
| --- |
| • Cefnogaeth barhaus i iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr wrth i'r sefydliad barhau â'i ymdrechion trawsnewid.<br>• Cynnal momentwm yn y strategaeth drawsnewid i ymateb i'r heriau cyfredol.<br>• Ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd llywodraethu trwy gyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a sicrhau gwasanaethau teg, hygyrch i bawb.<br>• Cynnal ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd drwy sicrhau bod safonau'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu bodloni'n gyson ar draws pob gwasanaeth. |